LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Cynllun Blynyddol 2026-2027

# Fformatau hygyrch

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

## Ni yw Llais

Rydym yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn weithredol annibynnol, felly gallwn ddewis yr hyn yr ydym yn gweithio arno, sut, a gyda phwy yr ydym yn gweithio.

Fe'n sefydlwyd ym mis Ebrill 2023 ac rydym yn gweithio ar draws pob ardal o Gymru. Ein Bwrdd sy'n gosod ein cyfeiriad strategol. Mae'n sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i wneud yr hyn a ddywedasom y byddem yn ei wneud – yn y ffordd sy'n diwallu anghenion pobl orau.

### Ein gweledigaeth strategol a'n blaenoriaethau

Ein cenhadaeth yw gwrando'n ofalus, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a chynyddu effaith lleisiau pobl wrth lunio gwasanaethau.

Rydym yn gweithio gyda phobl Cymru i roi llais cryfach i chi a chynrychioli eich diddordebau o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

# Rhagair

## Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd

Wrth i ni ddechrau blwyddyn olaf ein Cynllun Strategol 3 blynedd, mae Llais mewn cyfnod hollbwysig.

Rydym wedi sefydlu ein hunain fel llais annibynnol pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym wedi meithrin perthnasoedd ar draws cymunedau, gwasanaethau a llywodraeth. Rydym wedi dangos y gall profiad bywyd, pan gaiff ei gasglu'n ofalus a'i gyflwyno'n gredadwy, ddylanwadu ar newid.

Eleni, rydym yn wynebu her a chyfle. Bydd Llywodraeth newydd i Gymru yn dod i rym yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, gan ddod â blaenoriaethau ffres a ffocws newydd ar y materion sydd bwysicaf i gymunedau.

Ond mae'r cyd-destun yn parhau i fod yn heriol.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau dan bwysau mawr, gyda'r galw'n fwy na'r capasiti a staff yn gweithio mewn amgylchiadau anodd. Mae anghydraddoldebau yn parhau. Ac mae ymddiriedaeth mewn systemau cyhoeddus yn dibynnu fwyfwy ar a yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn gweld newid o ganlyniad.

Rydym hefyd yn gweld cynnydd. Mae gwasanaethau'n gwrando'n fwy gofalus. Mae partneriaethau'n dyfnhau. Mae arloesedd digidol yn creu posibiliadau newydd ar gyfer ymgysylltu a mynediad. Ac mae cymunedau'n dweud wrthym eu bod nhw eisiau cael eu clywed. Nid yn unig ymgynghori â nhw ond cael eu cynnwys yn wirioneddol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**Yn 2026–27, mae ein ffocws yn glir:**
nid yn unig i glywed mwy o leisiau, ond i wneud yn siŵr bod y lleisiau hynny'n arwain at welliant amlwg.

Byddwn yn cynnull cymunedau, yn herio'n adeiladol lle mae gwasanaethau'n methu, yn dwyn gwasanaethau i gyfrif yn erbyn Egwyddorion y Bobl, ac yn gweithio gyda phartneriaid i wella canlyniadau.

Gwella'r system yw ein nod yn y pen draw. Cynnull, herio ac atebolrwydd yw'r dulliau y gallwn ei gyflawni.

# Cyd-destun: Ble rydyn ni nawr

3 blynedd ar ôl ein sefydlu, mae Llais yn gweithredu mewn system sydd yn fwy cysylltiedig ag yn fwy dan straen nag yr oedd pan ddechreuon ni. Mae pobl yn parhau i aros yn rhy hir i gael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, boed hynny'n gweld meddyg teulu neu ddeintydd, neu'n cael cefnogaeth gofal cymdeithasol i allu byw'n annibynnol.

Mae gofalwyr di-dâl yn parhau i fod dan bwysau aruthrol, gan gyrraedd pwynt argyfwng yn aml cyn i gymorth cyrraedd. Mae gwasanaethau iechyd meddwl dan straen gormodol, gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n arbennig gan arosiadau hir am asesiad a chymorth.

Ar yr un pryd, rydym yn gweld cydnabyddiaeth gynyddol nad yw'r status quo yn gynaliadwy.

Mae ein maniffesto, ***Blaenoriaethau'r Bobl***, yn nodi'r **hyn** y mae cymunedau ledled Cymru eisiau ei weld: mynediad tecach, ymyrraeth gynharach, gofal person-ganolog, a gwasanaethau sy'n cydweithio.

Byddwn yn defnyddio'r **hyn** y dywedodd pobl wrthym eu bod am ei weld, ynghyd ag ***Egwyddorion y Bobl***, set o 8 egwyddor sy'n adlewyrchu sut y dywedodd pobl wrthym eu bod am i'w gwasanaethau gael eu darparu, i archwilio sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu dylunio a'u darparu drwy gydol ein gwaith yn 2026 a thu hwnt.

# Ein rôl yn 2026–27

Dyma flwyddyn olaf ein Cynllun Strategol presennol. Mae'n flwyddyn i ddod â'n gilydd, dyfnhau a dangos ein heffaith. Byddwn yn adeiladu ar ein dulliau ymgysylltu cymunedol, yn cryfhau ein sylfaen dystiolaeth, ac yn defnyddio ein hannibyniaeth i herio'n adeiladol lle mae angen newid.

Byddwn ni hefyd yn paratoi ar gyfer y dyfodol. Erbyn mis Mawrth 2027, byddwn wedi cyd-ddylunio ein Cynllun Strategol nesaf, gan weithio gyda chymunedau, gwasanaethau, ein pobl a'n partneriaid i osod ein cyfeiriad ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd y mae pobl wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt, gan ganiatáu inni addasu wrth i anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu newid, gan wneud hynny mewn ffordd sy'n helpu i lunio blaenoriaethau'r llywodraeth newydd.

Er bod y Cynllun Blynyddol hwn yn nodi'r meysydd lle byddwn yn canolbwyntio ein hymdrech, efallai y bydd llawer o newid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl ffurfio llywodraeth newydd, felly byddwn hefyd yn cynnal yr hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar wasanaethau a phrofiadau pobl o ofal. Bydd gwrando ar bobl mewn amser real, nodi patrymau yn yr hyn a glywn, a chodi pryderon lle bo angen yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n rôl.

Ein prif her ar gyfer 2026–27 yw sicrhau bod profiadau bywyd pobl yn llywio dyluniad, datblygiad a darpariaeth eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd sy'n dangos sut mae eu lleisiau wedi gwneud gwahaniaeth i bawb. Mewn system dan bwysau, rhaid i ddylanwad fod yn ddisgybledig, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn barhaus.

**Alyson Thomas**

**Prif Weithredwr, Llais**

# Ein cynllun ar un dudalen

**Ein pwrpas statudol**

Rydym yn cydweithio â phobl Cymru i roi llais cryfach i chi a chynrychioli eich buddiannau o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

**Ein 5 blaenoriaeth strategol**

- Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb
- Cydweithio'n Well
- Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw
- Tyfu a gwella fel sefydliad

**Ein 8 egwyddor**

- Mynediad sy'n gweithio i bawb
- Urddas a pharch, bob tro
- Cyfathrebu clir a gonest
- Gofal cydgysylltiedig sy'n teimlo'n ddi-dor
- Gofal a chefnogaeth amserol wrth aros
- Dylai gofal gydnabod ac ymateb i'r person cyfan
- Gwasanaethau cynhwysol, hygyrch a theg i bawb
- Gofal a chefnogaeth sy'n galluogi annibyniaeth

**Sut beth yw llwyddiant**

- Mae profiadau pobl yn llunio penderfyniadau
- Mae gwasanaethau'n ymateb ac yn gwella, a
- Mae'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud yn weladwy i gymunedau ledled Cymru

Cynllunio ein gweithgareddau ymgysylltu cymunedol yn fwriadol, gyda ffocws clir ar leisiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Cefnogi unigolion i rannu eu profiadau yn ddiogel ac yn hyderus.

Gweithio o fewn ein cymunedau i ddeall a yw newid yn cael ei deimlo yn ymarferol.

# Sut mae Llais yn creu newid

Mae Llais yn bodoli i helpu i sicrhau bod profiad bywyd pobl yn arwain at well iechyd a gofal cymdeithasol i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Trosi'r profiadau hynny yn alwadau clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, am weithredu.

Adrodd yn gyhoeddus ar yr hyn sydd wedi newid, a'r hyn sydd heb newid.

Dilyn i fyny'n barhaus gyda gwneuthurwyr penderfyniadau nes y gallwn weld y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb.

Nid dim ond mwyhau lleisiau pobl yw ein nod, ond helpu i sicrhau bod y lleisiau hynny'n arwain at welliannau ystyrlon sy'n weladwy i'r bobl a'u rhannodd.

Mae'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi arwain sut rydym wedi adeiladu'r Cynllun hwn. Mae meddwl hirdymor yn llunio ein sgwrs genedlaethol a datblygiad ein strategaeth ar gyfer y dyfodol; mae atal yn dod trwy rannu mewnwelediad cynnar a dysgu o gwynion; mae integreiddio'n cael ei gryfhau trwy ein gwaith gyda Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a newid gwasanaethau; mae cynnwys yn rhedeg trwy ein hymgysylltiad cymunedol; ac mae cydweithio yn sail i'r pum blaenoriaeth. Trwy ganolbwyntio ar degwch, mynediad, cynhwysiant a gofal mwy cydgysylltiedig, mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi'r nodau lles cenedlaethol ac yn helpu i greu Cymru iachach, fwy cyfartal a mwy cydlynol.

# Egwyddorion y Bobl: ein safon gyhoeddus

**Drwy ein gwaith ymgysylltu cenedlaethol, dywedodd pobl wrthym beth roeddent ei eisiau gan eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

Drwy ein gwaith ymgysylltu cenedlaethol, dywedodd pobl wrthym beth roeddent ei eisiau gan eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mynediad sy'n gweithio i bawb

Dylai gofal fod ar gael pryd bynnag y bo ei angen - ar-lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb - heb rwystrau a achosir gan ddaearyddiaeth, iaith, neu allgáu digidol.

## Urddas a pharch, bob tro

Mae pobl eisiau cael eu gwrando, eu credu, a'u trin â charedigrwydd ym mhob cam o'r gofal.

## Cyfathrebu clir a gonest

Ni ddylai neb gael ei adael allan. Mae pobl eisiau diweddariadau amserol, iaith glir, a gonestrwydd ynglŷn ag oediadau.

## Gofal cydgysylltiedig sy'n teimlo'n ddi-dor

Dylai gwasanaethau gydweithio o amgylch y person, fel nad oes rhaid i bobl ailadrodd eu stori na dod o hyd i'w ffordd trwy wasanaethau ar eu pen eu hunain.

## Gofal a chefnogaeth amserol wrth aros

Mae gofal lle a phryd bynnag y mae ei angen ar bobl yn hanfodol ar gyfer diogelwch, lles ac ymddiriedaeth. Pan na ellir osgoi aros, dylai cefnogaeth a chyfathrebu clir sicrhau nad yw pobl byth yn teimlo eu bod wedi'u hanghofio.

## Dylai gofal gydnabod ac ymateb i'r person cyfan

Mae pobl eisiau gwasanaethau sy'n deall eu hamgylchiadau unigryw, yn eu trin â thrugaredd, ac yn ystyried pob agwedd ar eu hiechyd a'u bywyd, nid cyflwr yn unig.

## Gwasanaethau cynhwysol, hygyrch a theg i bawb

Dylai gofal adlewyrchu hawliau a hunaniaethau, a chael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig ag iaith, diwylliant, anabledd a mynediad digidol.

## Gofal a chefnogaeth sy'n galluogi annibyniaeth

Dylai gofal a chymorth helpu pobl i fyw gydag urddas, cysylltiad a dewis. Mae angen cymorth ystyrlon i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys seibiant, cyngor a chymorth emosiynol.

## Mae’r Egwyddorion hyn yn cynrychioli ein mandad gan gymunedau ledled Cymru

Yn 2026–27, byddwn yn eu defnyddio nid yn unig fel fframwaith gwerthoedd sy’n sbarduno ein gweithgareddau ein hunain, byddwn yn eu defnyddio i helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn atebol i’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Byddwn yn asesu arferion ymgysylltu, newid mewn gwasanaethau a chynrychioliadau yn erbyn yr Egwyddorion hyn ac yn adrodd yn dryloyw ar gynnydd.

# Ein ffocws strategol ar gyfer 2026–27

Byddwn yn parhau i weithio i gyflawni'r 5 blaenoriaeth a nodir yn ein Cynllun Strategol:

1. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol
2. Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb
3. Cydweithio'n Well
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw
5. Tyfu a gwella fel sefydliad

Mae gan ein sefydliad bach set fawr o gyfrifoldebau. Felly mae'n bwysig ein bod ni bob blwyddyn yn canolbwyntio ein gweithgareddau lle gallwn ni wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl a chymunedau ledled Cymru.

Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Ymgysylltu'n effeithiol â phobl mewn cymunedau ag iechyd a lles gwaeth, a phlant a phobl ifanc.
- Dysgu o gwynion a phrofiadau bywyd, er mwyn gwneud cynrychioliadau ystyrlon sy'n arwain at newid cadarnhaol.
- Dangos newid drwy ddilyn i fyny ac adrodd.
- Ymgorffori Egwyddorion y Bobl fel safon atebolrwydd cyhoeddus a ddefnyddir i fframio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, eu dylunio a'u darparu.

Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol craidd a'n gwaith o ddydd i ddydd, gan wrando ar bobl ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i gael eu lleisiau wedi'u clywed drwy ein gwasanaethau ymholiadau ac eiriolaeth cwynion, casglu mewnwelediad drwy ymgysylltu a phrofiad byw, a gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i sicrhau bod barn pobl yn llywio penderfyniadau am iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd ein Harweinwyr Strategol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth thematig ar faterion sydd bwysicaf i bobl, gan weithio gyda chymunedau, gwasanaethau a phartneriaid cenedlaethol i ddyfnhau dealltwriaeth o brofiadau pobl a nodi cyfleoedd i wella. Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein cynrychioliadau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn helpu i lunio trafodaethau cenedlaethol am ddyfodol gwasanaethau.

Bydd ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn sail i'n holl waith. Byddwn yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, a bod lleisiau pobl y mae eu profiadau'n cael eu clywed yn llai aml yn cael eu hadlewyrchu yn ein hymgysylltiad, ein mewnwelediad a'n dylanwad.

# 01 Blaenoriaeth 1: Gyrru Sgwrs Genedlaethol

Ni all gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wella heb drafodaeth onest a chynhwysol gyda phobl a chymunedau ynghylch yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi, yr hyn sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy, a sut mae cymunedau'n cydbwyso gofynion cystadleuol.

Yn rhy aml, mae sgyrsiau am y dyfodol yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig, gyda chynigion yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi yn hytrach na'u cynllunio ar y cyd â chymunedau o'r cychwyn cyntaf.

Mae pobl ledled Cymru wedi dweud wrthym eu bod am fod yn rhan o lunio gwasanaethau, nid dim ond eu defnyddwyr. Maen nhw eisiau deall yr heriau a'r cyfyngiadau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu, ond maen nhw hefyd eisiau tryloywder ynghylch ble mae adnoddau'n mynd a pham y gellir blaenoriaethu rhai meysydd dros eraill.

**Yn 2026–27, byddwn yn:**

- Archwilio sut mae gwasanaethau'n ymateb i'r hyn y mae pobl wedi dweud wrthym eu bod nhw ei eisiau gan eu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn y dyfodol.
- Arwain sgwrs genedlaethol ar hawliau a chyfrifoldebau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda ffocws penodol ar:
    - Iechyd menywod a gwasanaethau mamolaeth/ newyddenedigol
    - Gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol
    - Iechyd Meddwl
    - Mynediad at ofal cymdeithasol, cynaliadwyedd ac integreiddio
    - Gwasanaethau ar gyfer pobl niwroamrywiol a'u teuluoedd
    - Lluoedd Arfog
    - Diogelwch a gofal brys.
- Adrodd ar y themâu a glywn ledled Cymru lle mae profiadau bywyd pobl yn tynnu sylw at heriau systemig.
- Deall profiadau gwirioneddol 'o'r dechrau i'r diwedd' pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fel y gall gwasanaethau ddefnyddio'r rhain i wella.
- Rhannu dysgu am yr hyn sy'n galluogi ymgysylltiad ystyrlon a'r hyn sy'n cyfyngu ar gynnydd gyda gwahanol grwpiau o bobl.

# 02 Blaenoriaeth 2: Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb

Nid yw pawb yn profi gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfartal. Mae pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn byw, ar gyfartaledd, 20 mlynedd yn llai mewn iechyd da na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf cyfoethog. Ac eto mae gan feddygfeydd teulu sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig llai o feddygon teulu a nyrsys fesul claf fel arfer.

Mae mynediad at wasanaethau yn waeth mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, lle mae trafnidiaeth a phellter yn creu rhwystrau ychwanegol. Ni all siaradwyr Cymraeg bob amser gael mynediad at ofal yn eu hiaith gyntaf. A phan fydd pethau'n mynd o chwith, mae'r heriau o ddefnyddio systemau cwynion yn golygu bod llawer o bobl yn rhoi'r gorau iddi yn hytrach na mynd ar drywydd eu pryderon.

Rydyn ni'n clywed y patrymau hyn ym mhob rhanbarth. Nid ydynt yn anochel, maent yn ganlyniad dewisiadau ynghylch ble mae adnoddau'n cael eu cyfeirio, sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu, a pha safonau sy'n cael eu gosod a'u gorfodi.

**Yn 2026–27, byddwn yn:**

- Datblygu ymhellach ein dull gweithredu a'n cyfranogiad mewn cynigion mawr i newid gwasanaethau, gan gynnwys cynigion aml-ranbarthol, a gwneud ein cyfranogiad yn gliriach i gymunedau.
- Blaenoriaethu ymgysylltiad mewn cymunedau sy'n profi'r anghydraddoldebau iechyd mwyaf.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng cwynion unigol a dysgu ehangach, gan addasu i fodel cwynion newydd GIG Cymru, Gwrando ar Bobl.

Byddwn hefyd yn rhoi sylfeini cryfach ar waith fel y gall pobl a chymunedau gymryd rhan mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw mewn gwirionedd:

- Lansio a datblygu Cynghrair Egwyddorion y Bobl, gan greu rhwydwaith o sefydliadau cymunedol a chynrychioliadol i gefnogi gwell arfer ymgysylltu ledled Cymru.
- Ymgorffori Byrddau Seiniau rhanbarthol fel fforymau strwythuredig sy'n cysylltu cymunedau a gwneuthurwyr penderfyniadau.

Rydym am wneud yn siŵr, pan fydd pobl yn cymryd rhan, ei fod yn arwain at well gofal a chefnogaeth i bawb sy'n byw yng Nghymru.

# 03 Blaenoriaeth 3: Cydweithio'n Well

Nid yw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu gan un sefydliad na sector. Maent yn cynnwys cyrff y GIG, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr preifat, a rhwydweithiau cymorth anffurfiol. Pan fydd y rhain yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, mae pobl yn profi gofal cydgysylltiedig a di-dor.

Pan nad ydyn nhw'n gwneud hynny, mae pobl yn cwympo trwy fylchau, yn ailadrodd eu straeon yn ddiddiwedd, ac yn cael trafferth dod o hyd i'w ffordd trwy systemau tameidiog. Nid syniad newydd yw integreiddio, mae wedi bod yn flaenoriaeth polisi ers blynyddoedd, ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf ac yn anghyson.

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn dal i brofi gwasanaethau nad ydynt yn siarad â'i gilydd, newidiadau sy'n teimlo'n anniogel (yn enwedig i bobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion), a phrosesau cwyno sy'n ddryslyd pan fydd gofal a chymorth yn croesi ffiniau neu wasanaethau.

Ni allwn gyflawni ein cenhadaeth heb bartneriaethau cryf a chynhyrchiol. Eleni byddwn yn gweithio'n agosach gyda'n partneriaid allweddol i helpu i sicrhau bod y system iechyd a gofal cymdeithasol cyfan yn cymryd camau go iawn tuag at ofal cydgysylltiedig.

**Yn 2026–27, byddwn yn:**

- Defnyddio data ymgysylltu ac eiriolaeth cwynion i lywio cynllunio rhanbarthol a sgyrsiau am integreiddio drwy'r Asesiadau Anghenion Poblogaeth.
- Cymryd rhan mewn fforymau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio gwneud penderfyniadau.
- Dod â'n Bwrdd yn uniongyrchol i gymunedau drwy weithgareddau ymgysylltu strwythuredig.
- Cyd-ddylunio ein Cynllun Strategol nesaf gyda'n cymunedau a'n partneriaid.

# 04 Blaenoriaeth 4: Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio

Mae gan dechnoleg ddigidol y potensial i wneud gofal iechyd a chymdeithasol yn fwy hygyrch, effeithlon, ac ymatebol i anghenion ac amgylchiadau unigol pobl. Ond gall hefyd greu rhwystrau newydd os na chaiff ei gynllunio a'i gyflwyno gydag anghenion pobl yn ganolog.

Yn y flwyddyn nesaf byddwn yn cryfhau sut mae lleisiau pobl ar gynhwysiant digidol yn llywio trafodaethau cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel y Gynghrair Cynhwysiant Digidol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, i helpu i sicrhau bod profiadau bywyd pobl sy'n wynebu allgau digidol yn llywio datblygiad gwasanaethau iechyd a gofal digidol.

Rydym yn clywed yn gyson fod pobl eisiau i dechnoleg weithio drostyn nhw, nid i ddisodli cyswllt dynol na'i gwneud hi'n anoddach cael cymorth. Yr her yw sicrhau bod arloesedd digidol yn gwella mynediad a phrofiad i bawb, nid dim ond y rhai sydd eisoes yn hyderus yn ddigidol neu sydd â mynediad at dechnoleg.

**Yn 2026–27, byddwn yn:**

- Lansio a datblygu ein strategaeth ddigidol ein hunain.
- Cynrychioli barn a phrofiadau pobl wrth ddatblygu offer digidol fel Ap GIG Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y Gynghrair Cynhwysiant Digidol i greu panel dinasyddion ar gynhwysiant digidol – fel bod profiadau bywyd pobl yn llywio ac yn dylanwadu ar waith cynhwysiant digidol cenedlaethol.
- Dod â chymunedau a gwasanaethau ynghyd i siarad am dechnolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, fel eu bod yn cael eu datblygu a'u defnyddio'n ddiogel mewn ffyrdd sy'n gweithio i bawb.

# 05 Blaenoriaeth 5: Tyfu a gwella fel sefydliad

Mae ein heffaith yn dechrau gyda ni. Pan fyddwn ni'n glir, yn gyson ac yn cydweithio'n dda, gallwn ni wneud gwahaniaeth mwy i bobl a chymunedau ledled Cymru.

Wrth i ni symud ymlaen i flwyddyn olaf ein Cynllun Strategol, byddwn yn dod â'n holl waith datblygu a gwella mewnol at ei gilydd mewn un rhaglen syml.

Bydd hyn yn ein helpu i weithio mewn ffordd gliriach a mwy cydgysylltiedig, a sicrhau bod ein pobl, ein ffyrdd o weithio a'n hadnoddau i gyd yn cefnogi Egwyddorion y Bobl.

Mae bod yn glir, yn atebol ac yn dangos cynnydd parhaus yn bwysig - am y gwahaniaeth a wnawn i bobl a chymunedau ac er lles ein pobl.

**Yn 2026–27, byddwn yn:**

- Adrodd ar ein heffaith mewn ffordd glir a chyson, gan ddefnyddio Egwyddorion y Bobl i arwain sut a beth rydym yn ei rannu.
- Adeiladu ein safonau Cymru gyfan i mewn i amcanion gwaith ein pobl, fel bod pawb yn gwybod sut olwg sydd ar dda a sut i'w gyflawni.
- Gwella sut rydym yn recriwtio ac yn croesawu cydweithwyr newydd, fel ein bod yn dod â'r bobl gywir i mewn ac yn eu helpu i ymgartrefu'n dda.
- Cyflwyno arweinyddiaeth newydd a chryfach, cefnogaeth dysgu a datblygu personol a seiliedig ar rolau, fel bod pobl yn teimlo'n hyderus ac mewn sefyllfa dda i lwyddo.
- Cryfhau ein fframweithiau rheoli perfformiad a goruchwylio, fel bod pobl yn cael yr adborth, y gefnogaeth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith gorau.
- Adolygu sut mae ein systemau ariannol yn gweithio a chytuno ar welliannau lle bo angen.
- Parhau i wella sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data a gwybodaeth, gan gynnwys drwy ein system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) fel bod ein mewnwelediad yn gryf ac yn ddibynadwy.
- Cadw llygad ar newidiadau cyfreithiol a pholisi a allai effeithio ar ein gwaith a gwneud yn siŵr ein bod yn barod ar gyfer unrhyw beth newydd.
- Parhau i ddatblygu ein llywodraethu, ein ffyrdd o weithio, a'n cyfrifoldebau adrodd statudol fel ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

# Mesur llwyddiant

Byddwn yn mesur llwyddiant yn ôl a all pobl a chymunedau weld newid go iawn yn digwydd ac nid dim ond yn ôl pa mor brysur rydym wedi bod.

Byddwn yn chwilio am arwyddion clir bod ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, a byddwn yn agored ynglŷn â'r hyn sydd wedi newid a'r hyn sydd angen digwydd o hyd.

Byddwn yn gwirio ein bod yn gweithio yn ôl ein safonau yn yr un ffordd ledled Cymru, yn gwrando ar yr hyn y mae cymunedau, partneriaid a'n pobl yn ei ddweud wrthym, ac yn sicrhau ein bod yn dilyn pob sylw a wnawn.

Bydd ein Bwrdd yn cadw llygad barcud ar hyn fel bod ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru.

# Cysylltwch â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy'r manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg.

Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

**Llais**
**Adeiladau'r Goron,**
**Parc Cathays,**
**Rhodfa'r Brenin Edward VII,**
**Caerdydd.**
**CF10 3NQ**

**02920 235 558**
**ymholiadau@llaiscymru.org**

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care